

Chwarae dros Cymru

Rhifyn 11 Hydref 2003



NEWYDDION CHWARAE A GWYBODAETH GAN Y SEFYDLIAD CENEDLAETHOL DROS CHWARAE

CHWARAE AR GYFER Y DYFODOL



I gael newyddion o'r Gynhadledd Bws Chwarae Cenedlaethol gweler tudalen 5

Fel y sefydliad cenedlaethol dros chwarae plant, mae Chwarae Cymru yn gweithio tuag at weledigaeth y bydd Cymru un diwrnod yn wlad lle'r ydym yn cydnabod ac yn darparu ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

Mae Chwarae Cymru yn aelod o Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cwrrd gyda briff i gyflwyno argymhellion i'r Cynulliad fis Chwefror nesaf. Er mwyn rhoi rhestr gynhwysfawr o'n cynigion ein hunain, yn yr hydref eleni gwnaethom ofyn y cwestiwn dilynol i gydweithwyr, arbenigwyr chwarae, actifyddion, ymchwilwyr a gweithwyr chwarae ar draws y byd:

Pe bai gennych chi ddewis o'r cynlluniau mwyaf pwysig, cyffrous a buddiol a fyddai'n effeithio ar gyfleoedd ar gyfer

chwarae plant a darpariaeth chwarae, beth hoffech chi ei weld yn newid neu'n dod i ffrwyth yn y dyfodol?

Mae'n gwestiwn sy'n gwneud i bobl feddwl ac yn bendant yn sy'n ysgogi'r dychymyg. Roedd yr ymateb yn ysbrydoledig a diolchwn i bawb a helpodd.

Ein nod yn ei ofyn oedd casglu syniadau ac enghreifftiau o arfer da, sy'n cefnogi chwarae plant yn ein gwlad ein hunain a gwledydd eraill. Wrth gwrs, roedd ein rhestr ddymuniadau ein hunain gennym eisoes ond mae bob amser yn dda i "ofyn i'r gynulleidfa".

Yn seiliedig ar ein gweledigaeth a'n hymchwil ein hunain, rydym wedi cyflwyno awgrymiadau i'r Grŵp y gobeithiwn fydd yn gwneud Cymru'n

wlad mwy ymwybodol o blant a chyfeillgar i blant i gymharu gyda lleoedd megis Sweden a'r Iseldiroedd.

Dyma rai o'n syniadau:

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o roi amser a gofod i blant chwarae;
- Ailhawlio strydoedd preswyl ar gyfer cerddwyr a chwarae plant;
- Newidiadau mewn cyfraith traffig fel y bernir mai'r gyrrwr sydd ar fai mewn damweiniau gyda cherddwyr a seiclwyr
- Statws cynefin diogeledig ar gyfer amgylcheddau lle mae plant yn chwarae;
- Mwy o ardaloedd chwarae olwyn lleol a meysydd chwarae antur fel a geisir mewn arolygon o blant hŷn;
- Darpariaeth chwarae lleol iawn priodol i ddatblygiad ac addasiadau stryd cyfeillgar i chwarae ar gyfer plant sy'n methu mynd ymhellach na'u stryd eu hunain;
- Ailwerthusiad o feysydd chwarae antur sefydlog yn nhermau eu gwerth chwarae i blant a strategaeth ardal chwarae sy'n benodol i anghenion cymunedau Cymru
- Cynllun gwella meysydd chwarae ysgol i roi tiroedd ysgol ysgogol a heriol sy'n ateb anghenion chwarae plant;
- Ymgyrchoedd hyfforddi yn seiliedig ar ymchwil i ddamcaniaeth datblygiad plant a chwarae ar gyfer athrawon a phob gweithiwr profesiynol arall sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant.

Mae llawer o'r awgrymiadau hyn yn gweithio'n dda mewn gwledydd eraill a cafodd llawer o'r syniadau hyn eu cynnig neu eu profi eisoes, ond am amrywiaeth o resymau nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi derbyn ymrwymiad graddfa lawn gan bob adran o'r Llywodraeth.

Os gweithredir y cynigion hyn, byddai cyfle gwirioneddol i Gymru ddarparu enghreifftiau blaengar y medrwn eu rhannu'n rhyngwladol. Felly, dylai gweithrediad y Polisi Chwarae fynd law yn llaw ag ymchwil gweithredu a chasglu data, gan arddangos effeithlonrwydd dynesiadau blaengar.

parhad. td2 >

GOLYGYDDOL

Bum mlynedd yn ôl fyddai unrhyw un ohonom wedi breuddwydio y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadu Polisi Chwarae? Nid yn unig hynny, ond y byddent hefyd wedi llunio Grŵp Gweithredu o bob rhan o Gymru i gynhyrchu argymhellion i droi'r Polisi Chwarae yn realaeth ar gyfer plant? Y mae, i ddweud y lleiaf, yn gyfrifoldeb cyffrous. Yr her i bawb ohonom sy'n cymryd rhan yw gwneud y gorau o'r cyfle.

Hysbyswyd y Grŵp Gweithredu yn ddiweddar y penodwyd Plant yng Nghymru yn ymgynghorwyr, a fydd yn gweithio gyda Chwarae Cymru, i roi cig ar esgyrn argymhellion y Grŵp Gweithredu. Felly, os ystyriwch fod yn rhaid gwneud yr argymhellion ar gyfer dechrau Chwefror, rydym yn bendant yn mynd i fod yn brysor am yr ychydig fisoedd nesaf.

Mae'r datgliadau yn parhau... mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi arddangos cryn graffter wrth roi cyllid craidd tymor-byr ychwanegol i ni fel y medrwn arwain adolygiad y DG ar Werthoedd a Thybiaethau Gwaith Chwarae (sy'n sylfaen i'r NVQ Gwaith Chwarae ac yn trwytho'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae). Bydd yr adolygiad hwn yn trwytho datblygiad datganiad fydd yn wasanaethu'r proffesiwn gwaith chwarae ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, a hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at wneud Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn realaeth.

Yn ogystal ag edrych ar y darlun mwy, mae Chwarae Cymru hefyd yn bryderus am faterion lleol ac er fod y cynlluniau a ddisgrifir uchod yn gadarnhaol iawn, mae un cynllun nad yw eto wedi ateb y pwrpas y cafodd ei gynllunio ar ei gyfer.

Deallwn y bydd adolygiad gan Lywodraeth

Cynulliad Cymru o'r Safonau Gofal Dydd yn fuan, a gobeithiwn y bydd hynny'n arwain at rai gwelliannau yn y drefn archwilio a weithredir ar gyfer darparwyr chwarae. Fodd bynnag, mae Chwarae Cymru yn parhau i dderbyn straeon gwahanol iawn o bob rhan o Gymru. Dengys hyn, er fod rhai arolygwyr yn gadarnhaol, gwrthrychol ac yn dangos dealltwriaeth glir o anghenion chwarae plant a sut y medrid eu cyflawni, ymddengys fod eraill yn cymryd dynesiad llawer mwy anhyblyg a goddrychol. Maent yn canolbwyntio ar y manion yn hytrach na chydabod yr angen am hyblygrwydd yn datblygu darpariaeth chwarae perthnasol i'r ardal.

Mae'r gwahaniaeth yn y profiad arolygu, ar ei fwyaf eithafol, yn arwain at i rai darparwyr chwarae a gofal plant sefydledig newid eu harfer gwaith er mwyn disgyn y tu allan i gylich gorchwyl yr Arolygaeth, gan ei newid i gydymffurfio gyda'r Safonau ond yn y broses yn darparu darpariaeth waelach neu yn rhoi'r gorau i weithio gyda phlant yn llwyr.

Ein profiad ni yw nad oes unrhyw fater arall sy'n achosi cymaint o benbleth i'r proffesiwn chwarae ag amrywioldeb gweithrediad y Safonau Gofal Dydd ledled Cymru.

Mae 2004 yn argoeli bod yn flwyddyn ddiddorol a chyffrous.

Mike Greenaway
Cyfarwyddydd

Briffiad Amddifadedd Chwarae

Mae'n dalen briffio amddifadedd chwarae, a ysgrifennwyd gan Bob Hughes o PlayEducation, yn barod i gael ei chyfieithu a'i hargraffu a dylai fod ar gael mewn copi caled ac ar ein gwefan cyn y Nadolig. Os hoffech gopi cysylltwch â ni yn ein swyddfa genedlaethol, neu e-bost info@playwales.org.uk

Idris Bevan

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Idris Bevan ym mis Gorffennaf 2003. Bu Idris yn Gydlynnydd Chwarae gyda Chyngor Sir Torfaen yn ystod ychydig flynyddoedd olaf ei fywyd. Un o gyfrifoldebau allweddol ei swydd oedd cefnogi datblygu clybiau chwarae gwirfoddol yn yr ardal ac roedd wrth ei fodd yn y gwaith. Er yn newydd i Waith Chwarae, roedd Idris yn frwdfrydig am ei swydd ac aeth ati mewn modd sensitif, a arweiniodd at iddo fod yn uchel ei barch ymysg y llu o wirfoddolwyr y gweithiai â hwy. Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Idris a'i lu o ffrindiau a chydweithwyr.

CYNNWYS

• Golygyddol	T2
• Briffiad Amddifadedd Chwarae	T2
• Pob Plentyn yn Cyfrif	T3
• Trafodaeth yn y Senedd ar Chwarae	T3
• Gohirio Canlyniadau Adolygiad	T3
• Gall Mesur Gwrth-gymdeithasol Lesteirio Chwarae	T3
• Uned Cofnodion Troseddol i Gymru	T4
• Sprite yn dod yn Sgiliau Heini Cymru	T4
• Gweinidogion yn Cwrdd	T5
• Bws Chwarae Cenedlaethol	T5
• Hawl Plant Cefn Gwlad i Chwarae	T6
• Llythyr i'r Golygydd	T7
• A yw'r Iseldirwyr yn Caru eu Plant Hwy yn Fwy nag y Carwn ni ein Plant Ni	T8
• Agor ein Drysau i Bob Plentyn	T10
• Cyllid	T11
• Digwyddiadau	T12
• Swyddi ar y We	T12
• Canolfannau Adnoddau Chwarae	T12
• Hwyl Fawr Claire	T12
• A oes Cloch ar y Beic	T12

<parhad o dudalen 1

Efallai y cawn ein cyhuddo o ddefnyddiaeth ac iwtopiaeth, ond os na ddefnyddiwn y cyfle mewn dull blaengar ac uchelgeisiol, efallai na chawn byth mo'r cyfle eto. Os gweithredwn yn awr medrwn wneud Cymru yn lle gwell i'n plant a chenedlaethau'r dyfodol.

[Mae'r sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Grŵp yn cynnwys Clybiau Plant Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae, Cymdeithas Chwarae a Meysydd Chwarae Gogledd Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Llyfrgelloedd Teganau a Hamdden a Chymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-Ysgol Cymru. Cadeirir y Grŵp gan Margaret Jervis o Valleys Kids (sydd hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Chwarae Cymru) dan fantell Adran Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.]

Cawsom newyddion da yn union fel yr oedd y copi ar gyfer y rhifyn hwn yn cael ei anfon at yr argraffydd ...

Mae Plant yng Nghymru a Chwarae Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn eu tendr ar gyfer y contract i ymchwilio a chyflwyno argymhellion Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae y Cynulliad.

Chwarae dros Gymru

Cyhoeddir gan Chwarae Cymru. Dylid anfon pob gohebiaeth ac ymholiad at y Golygydd yn:

Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5PH
Ffôn: 029 2048 6050 Ffacs: 029 2048 9359 E-bost: mail@playwales.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926

Nid yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn o reidrydd yn farn Chwarae Cymru. Cadwn yr hawl i olygu erthyglau ar gyfer cyhoeddiadau.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf. Ffôn: 029 2074 1150. E-bost: sales@carrickbusiness.co.uk
Darluniadau cartwn gan Les Evans

Pob Plentyn yn Cyfrif

Cyhoeddwyd Papur Gwyrdd y Llywodraeth “Every Child Matters” ym Mis Medi a bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi ei dogfen ymgynghorol ei hun yr Hydref hwn i ddangos sut y dylai'r ddeddfwriaeth fod yn gymwys i Gymru.

Mae'r Papur Gwyrdd yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

- Ymyriad cynnar a diogelu effeithlon
- Cefnogi rhieni a gofalwyr
- Atebolrwydd ac integreiddiad – yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Ad-drefnu gweithlu

Nid yw ymateb y Cynulliad yn cwmpasu rhai o'r argymhellion oherwydd eu bod yn cyfeirio at strwythurau'r llywodraeth yn Lloegr, ac nid yw ychwaith yn cwmpasu argymhellion yn ymwneud â'r heddlu gan mai cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yw hynny.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu camau a gymerodd eisoes i ddiogelu plant, a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Un o brif argymhellion y Papur Gwyrdd yw penodi Comisiynydd Plant i Loegr, a chafodd y gweddill eu trafod gan Jane Hutt mewn llythyr a anfonwyd at awdurdodau lleol, awdurdodau ieuchyd ac ati ym mis Mawrth eleni.

Medrir islwytho crynodeb o Every Child Matters (a fersiwn plant a phobl ifanc) o wefan y DFES yn:

www.dfes.gov.uk/everychildmatters

a medrir is-lwytho dogfen y Cynulliad yn:

www.cymru.gov.uk/plant

Trafodaeth ar Chwarae yn y Senedd

Ar ôl blynyddoedd o geisio'u darbwyllo, llwyddodd actifeiddwyr Chwarae yn Lloegr i berswadio Aelodau Seneddol i drafod chwarae yn Nhŷ'r Cyffredin ddechrau mis Tachwedd. Roedd yr oriel ymwelwyr yn llawn wrth i bobl chwarae wrando ar Aelodau Seneddol yn siarad am werth chwarae plant a'u profiad chwarae eu hunain. Er y medrai'r oriel fod yn llawn, nid felly lawr y Tŷ, ond cafwyd trafodaeth ddefnyddiol serch hynny.

Fel y dywedodd Hilton Dawson AS (Lancaster a Wyre) wrth gyfeirio at Bapur Gwyrdd “Every Child Matters”, os yw pob plentyn yn tyfu, rhaid i ni sicrhau fod chwarae yn rhan ganolog o waith pob sefydliad.

Mae symudiadau ar y gweill i ddatblygu Strategaeth Polisi Chwarae Genedlaethol i Loegr yn dilyn yr Adolygiad Chwarae eleni ac yn dilyn mabwysiadu polisïau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Gyfunol.

Os hoffech gopi pdf o adroddiad Hansard y drafodaeth e-bostiwch info@playwales.org.uk

Gohirio Canlyniad Adolygiadau Eto

Wrth i mi ysgrifennu'r erthygl hon, rydym yn dal i aros canlyniadau Adolygiad Chwarae DCMS a gynhaliwyd y Gwanwyn diwethaf. Fe wnaethom hyd yn oed ohirio cyhoeddi'r rhifyn hwn o Chwarae dros Gymru er mwyn dod â'r newyddion i chi. Ond mae olwynion Whitehall yn araf iawn i symud.

Yn y cyfamser mae Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys ystyriaeth o'r ymatebion i Adolygiad Chwarae Cymru (a gynhaliwyd ar yr un pryd ag un y DCMS) yn ei gynigion am strategaeth chwarae i Gymru.

Cyn gynted ag y gwyddom am y canlyniadau, cânt eu doddi ar ein gwefan: www.playwales.org.uk

Gall Mesur Gwrth-gymdeithasol Lesteirio Chwarae

Mae clymblaid o elusennau plant wedi comisiynu ymchwil a ddangosodd fod 80 y cant o'r rhai 10 - 16 oed a arolygwyd yn credu y bydd Mesur Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol y Llywodraeth yn creu tensiwn gyda'r heddlu. Os daw'n gyfraith bydd gan yr heddlu bwerau i chwalo grwpiau o ddau neu fwy o blant dan 16 oed.

Comisiynodd y glymblaid (sy'n cynnwys Cymdeithas y Plant a Barnado's) bôl gan yr NOP, ac yn awr mae'n gofyn am welliant i Gymal 31 o'r Mesur i wneud yn siwr fod y gymuned leol (yn cynnwys plant) yn ymwneud ag unrhyw benderfyniad i roi pwerau i'r heddlu i waredu grwpiau. Dywedodd Bob Reitemeier o Gymdeithas y Plant: “Mae'r cynlluniau yn gwahaniaethu... Gall pwerau'r heddlu i wasgaru grwpiau a chyrrffw llwybr-cyflym gosbi plant sy'n cadw'r gyfraith heb unrhyw le arall i gwrdd”.

Yn ôl Anthony Jennings CF medrai rhannau o'r Mesur fod yn groes i'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Plant. Ymddengys y byddai hefyd yn bwrw dirmyg ar lofnodiad Llywodraeth Prydain o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Bu Chwarae Cymru yn ddiweddar yn rhan o ymgyrch i annog ymateb cadarnhaol i blant yn chwarae allan, ac i amlgyu'r problemau sy'n wynebu plant a phobl ifanc pan fyddant yn chwarae yn eu hardaloedd lleol. Roedd yn galonogol gweld y sylw a gafwyd yn y cyfryngau yng Nghymru dros yr haf a rydym yn parhau i ymgyrchu ar y mater. Felly mae'n rhoi halen ar y briw i weld y Llywodraeth yn cyflwyno mesurau llym a all wynebu ar y problemau sydd eisoes yn wynebu plant.

O gofio am brofiad y gorffennol, mae'n annhebygol y caiff y ddeddfwriaeth ymateb cadarnhaol i blant. Mae'n trafod canlyniad plant a phobl ifanc yn peidio cael mynediad i ofodau ac adnoddau priodol i ddangos eu hymddygiad chwarae droi roi mwy o bwerau i oedolion. Nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau gwreiddiol mewn ffordd sy'n canoli ar blant ac felly mae'n annhebyg o wneud dim mwy na dieithrio plant ymhellach byth o'u cymunedau eu hunain.

I weld canlyniadau llawn pŵl yr NOP fel pdf ewch i www.thechildrenssociety.org.uk/pdfs.view

Uned Cofnodion Troseddol i Gymru

Mae cyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru wedi galluogi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i sefydlu Uned Cofnodion Troseddol newydd i weithredu fel corff ymbarél cofrestredig ar gyfer y Biwrô Cofnodion Troseddol.

Mae Uned Cofnodion Troseddol yr WCVA yn seiliedig ym Mae Colwyn, mae'n darparu gwasanaeth dwyieithog a bellach yn llwyr weithredol. Drwy roi mynediad i'r gwasanaeth datgelu, bydd CRU yn helpu sefydliadau gwirfoddol i wneud penderfyniadau recriwtio gwybodus ar gyfer gwirfoddolwyr a staff taledig yn gweithio mewn swyddi a eithriwyd dan Ddeddf Adfer Troseddwy'r 1974. Mae

gwasanaethau'r Uned yn agored i bob sefydliad gwirfoddol yng Nghymru – grwpiau gwirfoddol, grwpiau hunan-gymorth, cyweithiau a mentrau cydweithredol, sefydliadau crefyddol a sefydliadau eraill dim-er-elw o fudd i gymunedau a phobl yng Nghymru.

Mae'r Uned yn darparu ffurflenni Cais Datgelu gwag ar gais; yn gweithredu fel gwrth-lofnodydd ac yn anfon ffurflenni a gwblhawyd at y Biwrô Cofnodion Troseddol; yn derbyn datganiadau datgeliad a'u hanfon at y sefydliad. Rhaid i sefydliadau gwirfoddol sy'n dymuno defnyddio'r gwasanaeth gofrestru gyda'r Uned i sicrhau y gall gynnig y cyngor a'r arweiniad angenrheidiol er mwyn ateb ei gyfrifoldebau fel corff ymbarél pan yn gweithredu ar ran sefydliadau eraill.

"Rydym wrth ein bodd gyda'r

adborth a'r sylwadau a gawsom gan y sector. Os na fu modd i chi ddod ar y sioe ffordd, cysylltwch â ni a byddwn yn anfon yr wybodaeth atoch neu os yw'n well gennych, medrir islwytho hyn o wefan yr WCVA", meddai Elizabeth Flack, Pennaeth yr Uned.

Mae'n rhwydd cofrestru. Ffoniwch y llinell Gofrestru ac Ymholiad ddwyieithog ar **0870 241 6557** neu e-bost: cru@wvva.org.uk lle gall y Proseswyr Datgeliad drafod anghenion eich sefydliad a mynd â chi drwy'r broses gofrestru.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter ag:

Emma Leighton-Jones
Prosesydd Datgeliad
Ffôn/Phone 01492 539894
E-bost/E-mail
eleighton-jones@wcva.org.uk

SPRITO YN DOD YN SGILIAU HEINI

Lansiwyd SkillsActive – y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Hamdden a Dysgu Gweithgar ym mis Hydref. Cyfarwyddyd yr Uned Gwaith Chwarae Sgiliau Heini yw Paul Bonel, ac mae'n gyfrifol am arwain datblygiad addysg, hyfforddiant a chymwysterau mewn gwaith chwarae yn y DG.

Felly pa wahaniaeth wnaiff hyn i'r rhai sy'n ymwneud â'r sector gwaith chwarae yng Nghymru? Mewn erthygl ddiweddar yn Leisure Manager, dywedodd Paul: "Bu'n cyllid wedi'i glymu i raddau helaeth iawn gyda ffrydiau cyllid y DfES a'r DCMS a bu ganddo bob amser dueddiad tuag at Loegr. Rydym wedi gwneud gwaith Prydeinig ond bu hynny'n eithaf cyfyngedig a rydym yn gobeithio'n awr y bydd cwmpas ehangach ar gyfer cysylltiadau Prydeinig".

Mae rhai newidiadau mewn strwythur wrth i SPRITO newid i Sgiliau Heini. Sefydlwyd Uned Gwledydd Prydain, dan arweiniad Ashley Pringle,

ac o fewn yr Uned hon Richard Tobutt yw Rheolydd rhaglen Cymru.

Mae Sgiliau Heini yn bwriadu adeiladu ar gysylltiadau presennol a hyrwyddo dialog adeiladol gyda chydweithwyr gwaith chwarae yn y DG. Bydd yn parhau â'r dynesiad cydweithredol y maent wedi ei gymryd eisoes ar faterion megis y Cod Ymarfer yn yr Alban a chymeradwyaeth cyrsiau hyfforddiant yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Bydd hefyd adolygiad a datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ym mhob sector o Sgiliau Heini.

Yn y dyfodol mae Sgiliau Heini yn anelu i sefydlu cynhadledd Brydeinig, canolfannau addysg a hyfforddiant gwaith chwarae yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a strategaeth Brydeinig ar gyfer addysg a hyfforddiant gwaith chwarae.

Caiff Sgiliau Heini Cymru ei lansio ddiwedd yr hydref. Gwahoddwyd Jane Davidson, Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Hutt, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Alun Pugh Gweinidog Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a chwaraeon, i ymuno â chynrychiolwyr gwaith chwarae i ddathlu'r lansiad yng Nghymru.

Gweinidogion yn Cwrdd mewn Canolfan Plant Integredig



Gwahoddodd Chwarae Chymru a Malcolm King, Cyfarwyddyd The Venture ac un o aelodau ein Bwrdd, ddau Weinidog allweddol o'r Cynulliad i gwrdd yno ym mis Hydref. Mae Maes Chwarae Antur The Venture yn Wrecsam yn fodel ar gyfer y Canolfannau Integredig newydd a gyllidir gan NOF a fydd yn ymddangos cyn hir ym mhob ardal awdurdod lleol.

Fel rhan o'n rôl fel cyfaill beirniadol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, cynhyrnod Chwarae Cymru bapur trafod ar y cynlluniau i ddatblygu Canolfannau Plant Integredig yng Nghymru. Felly pwrpas y cyfarfod gyda Jane Hutt, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Jane Davidson, Gweinidog Addysg, oedd annog

ailwerthuso'r strategaeth. Mae'r papur yn anelu i osod rhai o'r egwyddorion a'r gwersi allweddol o ymarfer sydd angen eu trafod os yw'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer y Canolfannau i gael eu cyflawni.

Er fod gan yr elfennau yn gysylltiedig â blynyddoedd cynnar, chwarae mynediad agored a gofal plant ran amlwg yn y cynlluniau, gadewir rhai pethau pwysig allan. Mae angen cynnwys cwricwlwm amgen, cynhwysiant ieuencid a gwaith troseddu ieuencid, gwaith allestyn a gwaith gyda phlant a phobl ifanc gydag anableddau, anawsterau ymddygiad a rhai'n dioddef o gam-driniaeth. Os na chynhwysir yr holl gwmpas o blant a phobl ifanc o'r cychwyn cyntaf a'u bod yn teimlo manteision y Ganolfan Integredig, mae tebygrwydd cryf y byddant yn teimlo wedi eu hallgau'n ddigonol i fod eisiau dinistrio'r Canolfan yn ei dyddiau cynnar.

Meysydd chwarae antur yw'r cyfrwng gorau i apelio at yr amrediad ehangaf posibl o blant, pobl ifanc a theuluoedd. Gall pob plentyn a pherson ifanc sy'n mynychu'r maes chwarae gymryd rhan wrth ei hadeiladu, sy'n un o'r elfennau allweddol wrth annog perchnogaeth leol. [Mae hyn yn achosi problemau neilltuoedd mewn ardaloedd gwledig lle gall y teuluoedd a fyddai'n manteisio o'r gwasanaeth fod wedi eu gwasgaru dros ardal ddaearyddol eang'. Mae hefyd angen twf organig tawel i ateb anghenion lleol. Caiff cysyniad a gaiff ei "barasiwtio mewn" i sicrhau ateb cyflym i broblemau tymor hir iawn ei ystyried yn gydag amheuaeth, ac mae pob tebygrwydd na fydd yn cymryd gafael.

Mae gennym bryderon difrifol fod dehongliad lleol y strategaeth yn dioddef oherwydd diffyg cyfeiriad manwl i'r Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc yng nghyswllt cyfleoedd chwarae antur gyda staff. Llesteirir hyn ymhellach gan ddiffyg gwybodaeth ac arbenigedd o chwarae antur yn y Partneriaethau eu hunain.

Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn, gwahoddwyd Cydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf a swyddogion gyda chyfrifoldeb am ddatblygu Canolfannau Chwarae Integredig i fynychu seminar Chwarae Cymru yn cyflwyno ethos ac ymarfer meysydd chwarae antur yr Hydref hwn. Ymwelwyd â thri maes chwarae antur yng Ngogledd Cymru a Swydd Caer a chymeryd rhan mewn gweithdai. Gadawodd ysgogwyr yn frwdfrydig iawn.

Cynhelir seminar arall yn y Gwanwyn 2004 ac yn y cyfamser mae bron bob amser yn bosibl i siarad gydag un o'n Swyddogion Datblygu neu i ymweld ag Adnodd Gwybodaeth Chwarae Cymru lle cadwn amrediad o gyhoeddiadau ar Chwarae Antur. Rydym hefyd yn defnyddio rhestr o ganllawiau ar gyfer datblygiad Canolfan Integredig yn seiliedig ar brofiadau The Venture.

Bws Chwarae Cenedlaethol

Cynhaliodd y Bws Chwarae Cenedlaethol Gynhadledd Hyfforddiant Iwyddiannus ddechrau mis Tachwedd, pan ddaeth 41 o aelodau (pump o Gymru) at ei gilydd am ddiwrnod trylwyr o hyfforddiant a rhwydweithio.

Cynhwysiant oedd thema'r dydd a chafodd aelodau gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai yn trafod popeth o Makaton (iaith arwyddion) i Weithio gyda Teithwyr, i Godi Ymwybyddiaeth o Geiswyr Nodded a ffoaduriaid. Dangosodd

saith prosiect eu bysus yn cynnwys bws synhwyr, bws chwarae, bws ieuencid a bws cenedlaethol.

Hannah White, Swyddog Datblygu

Os hoffech wybod mwy am y Bws Chwarae Cenedlaethol e.e. digwyddiadau'r dyfodol a'n hymgyfraniad o fewn Cymru, ffoniwch 01117 916 6570 neu e-bostio playbus@playbus.org.uk.

Cefnogi Hawl y Plentyn Gwledig i Chwarae

Mae llawer o ddiddordeb yng ngwerth chwarae a phryder fod y dimensiwn gwerthfawr hwn o ddatblygiad plentyn yn cael ei gollu. Caiff y pryderon hyn eu teimlo hefyd mewn ardaloedd gwledig – er ein bod yn clywed llai am yr ofnau a brofir gan blant, rhieni a gweithwyr chwarae yng Nghymru wledig.



Dywedwyd fod plant yn treulio mwy o amser yn chwarae nag ar unrhyw weithgaredd arall effro (35% yn chwarae, 15% yn yr ysgol, 50% gartref yn cynnwys cysgu). Eto ychydig o ddata sydd ar gael ar rôl chwarae plant mewn ardaloedd gwledig a sut y gall modelau trefol o ddarpariaeth chwarae fod yn amhriodol neu'n anymarferol.

Fel Gweithwraig Gymunedol yn y sector gwirfoddol yn ymwneud â chynlluniau chwarae integredig, hyfforddiant chwarae, Strategaeth Chwarae sirol ac adnoddau llyfrgell chwaraeon/adnoddau sefydlog a symudol am 15 mlynedd ym Mhowys, cynigiau y sylwadau dilynol:

- Mae angen herio'r dybiaeth fod gan blant heddiw sy'n byw mewn ardaloedd gwledig fynediad agored i gefn gwlad.
- Peryglon amgylcheddol – gall peiriannau a defnydd cemegolion ar ffermydd wneud chwarae heb arolygaeth yn annigol.
- Mae pryderon am ddiogelwch gan ddiethriaid/ymwelwyr yn golygu fod yn rhaid mynd gyda plant i weithgareddau a rhieni/gofalwyr yn aros i arolygu. Nid yw'n aml yn werth amser rhiant i wneud pedair taith ar gyfer sesiwn chwarae ddwy awr.
- Caiff cyfleoedd i chwarae eu cyfyngu gan gael eu "bysio" i ysgol y tu allan i gymuned y teulu ac felly mae cysylltiad cymdeithasol gyda chyfoedion wedi ei gyfyngu i oriau ysgol ar ddyddiau'r wythnos a gallant fod ar goll yn llwyr yn ystod gwyliau'r ysgol. Ar gyfer plant gydag anghenion arbennig sy'n mynd i'r ysgol filltiroedd o ble maent yn byw, gall chwarae gwyliau fod yn ysbeidiol, os yw'n bod o gwbl.

- Gall y siopau teganau agosaf fod 50 milltir neu fwy i ffwrdd. Sut mae rhieni yn dysgu am werth chwarae a teganau fel rhai o'r "offer" ar gyfer chwarae?
- Mae costau a hygyrchedd yn broblem oherwydd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus. Er enghraifft, i blant yn byw yn y Talgarth (mae 160 y flwyddyn ar gofrestr yr ysgol) mae'n golygu cyfanswm taith o 20 milltir heb unrhyw gludiant cyhoeddus o fath yn y byd ar ôl 6 pm i gyrraedd pwll nofio dan arolygaeth a chyfleusterau hamdden eraill.
- Mae'r gostyngiad ym maint teuluoedd wedi ychwanegu at angen plant i chwarae a sefydlu perthynas gydag oedolion a phlant y tu allan i aelodau'r teulu. Gyda chylchoedd chwarae ond yn cyfarfod unwaith yr wythnos mewn rhai cymunedau bach, gall y cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol, cyfeillgarwch a chefnogaeth ar gyfer plant a rhieni fod yn gyfyngedig iawn.



- Hyd y gwn ni fu unrhyw astudiaeth o effeithiau clwy'r Traed a'r Genau ar blant yn byw mewn teuluoedd a gafodd eu torri ymaith o fywyd cymunedol arferol am fisoedd lawer oherwydd ofn lledaenu'r haint. Cafodd cylchoedd Rhiant a Phlentyn a Chylchoedd Chwarae i blant eu cau ac mae'r cylchoedd hyn yn hollbwysig wrth baratoi plentyn ifanc i gael mynediad i'r ysgol pan fyddant ond yn 4 mlwydd oed.

Mae'n bwysig ein bod yn cofrestru anghenion chwarae ein plant gwledig fel bod yn neilltuoel ac yn wahanol i'w cyfoedion mwy trefol. Yn seiliedig ar brofiad ymarferol o sefydlu a chynnal darpariaeth chwarae trefnus ym Mhowys, byddwn yn cynnig yr awgrymiadau dilynol:



- Synnwyr cyffredin wrth adeiladu ar wasanaethau presennol a chynlluniau cymunedol lleol
- Cyfuno gwahanol swyddogaethau o fewn un gwasanaeth. Er enghraifft, gall y llyfrgell llyfrau symudol hefyd gynnwys rhai teganau a phropiau chwarae neu flwch chwarae ar gyfer llogi grŵp, a deunyddiau celf a chrefft ar werth.
- Adeiladu ac ehangu gwasanaethau gofalwyr plant, ysgolion, grwpiau rhiant a phlentyn, cylchoedd chwarae plant, llyfrgelloedd teganau a bysus chwarae i gynyddu'r cyfleoedd a'r dewisiadau ar gyfer chwarae plant.
- Rhoi ystyriaeth i fater cludiant i lawer o deuluoedd pan yn cynllunio gwasanaethau. Yn aml mae darpariaeth yn seiliedig mewn canolfan yn amhriodol.

Fel aelod o Grŵp Gweithredu Chwarae Polisi sydd newydd ei ffurfio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gobeithiaf gynnwys a rhoi sylw i anghenion a hawliau neilltuoel chwarae plant yn byw mewn ardaloedd gwledig.

Janet Matthews
Cyfarwyddyd, Cymdeithas
Genedlaethol Llyfrgelloedd Teganau a
Hamdden Cymru

Ymddangosodd y rhan fwyaf o'r erthygl hon yn *Play Matters Haf 2003*.

Annwyl Olygydd

Rwy'n anfon adroddiad i chi am brosiect yr wyf yn Rymwneud ag ef ac a all fod o ddiddordeb i rai o'ch darllenwyr.

Sefydlwyd Prosiect Maes Chwarae Cymuned Hawau ym mis Gorffennaf 2001 mewn ymateb i ymwybyddiaeth gan bobl leol o ddiffyg cyfleusterau ar gyfer aelodau iau cymuned Diserth a Threcoed yng nghefn gwlad y canolbarth (poblogaeth 1,200). Mae'r tirwedd o amgylch yn hardd ond nid oes dim i blant ei chyfran uchel o rieni sengl, diweithdra, trigolion gyda phroblemau iechyd tymor hir ac mae'n cynnwys tair gwaith yn fwy o gartrefi dros dro na chyfartaledd Cymru. Mae hefyd lawer o dlodi plant.

Mae'r ardal hefyd yn ddaearyddol gyfyngedig yn nhermau chwarae plant oherwydd fod pum stad dai yn bwydo i gefnffordd beryglus sy'n rhannu'r gymuned yn wahanol ardaloedd, pob un gyda'i phroblemau neilltuol ei hun.

Roedd plant yn byw ar stad tai yn y pentref yn dymuno ffurfio tîm pêl-droed ond nid oedd ganddynt unrhyw le i chwarae gemau; roedd yr ysgol gynradd leol eisiau rhywle i gynnal digwyddiadau chwaraeon, roedd yr unig ychydig o ddarnau o offer meysydd chwarae ar stad cyngor mewn cyflwr gwael ac ni fedrai'r awdurdod lleol ei adnewyddu, a bu'n rhaid cau clwb ieuenticid oherwydd nad oedd digon o helpwyr gwirfoddol i'w redeg.

Cynigiodd Cyngor Cymuned Diserth a Threcoed i lesu safle agored newydd i'r gymuned ar rent had yd, a ffurfiodd grŵp bychan o bobl leol bwyllgor rheoli gwirfoddol i lywio datblygiad y safle.

Rhododd y bobl ifanc yn eu cymuned eu syniadau am y defnydd gorau o'r safle drwy ymgyfraniad mewn cystadlaethau celf a dylunio, a drwy gynnal rôl yn yr ymgyngoriad sylweddol a wnaethpwyd gan y Pwyllgor, a oedd yn benderfynol i sicrhau fod gan bawb yn byw yn yr ardal gyfle cyfartal i rannu gweledigaeth o sut y byddai'r prosiect yn datblygu.

Roedd yr ymgyngoriad yn drwyadl, a pharhaodd rai misoedd, ond pan oedd y Pwyllgor yn fodlon y rhoddwyd cyfle i bob

preswlydd lleol i ddweud eu dweud, cafodd yr holl syniadau eu cywain a'u prosesu cyn cael eu dychwelyd i'r gymuned am sylwadau pellach. Lluniodd pensaer amgylcheddol gynlluniau drafft ar gyfer datblygu'r safle.

Ethos y prosiect yw annog cynhwysiant cymdeithasol a chyfranogiad cymunedol tra'n defnyddio arferion cynaliadwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Mae'r bobl ifanc yma yn frwd iawn iddynt gael cyfle i ddweud pa gyfleusterau y teimlant sydd eu hangen yn y pentref, a hefyd yn edrych at weithredu'r dymuniadau hynny ar y cam adeiladu ei hunan – byddant yn helpu i adeiladu eu cysgodfan i'r ardegau a gosod llwybrau a chreu gardd blodau gwyllt a gwaith celf – mae cynlluniau ar gyfer mur graffiti a darpariaeth ar gyfer beicwyr BMX. Rydym wedi llwyddo yn ein cais am gyllid o Gronfa Gofodau Gwyrdd a Chynaliadwyedd Enfys, a gobeithiwn gwblhau'r gwaith o fewn dwy flynedd.


Fel Pwyllgor gobeithiwn y bydd y prosiect yn helpu i ddatblygu ymdeimlad o berthyn i'r gymuned a chreu teimlad o ymrymhu. Ar yr un pryd dymunai'r Pwyllgor ostwng y rhwystrau cymdeithasol rhwng y gwahanol grwpiau oedran yn y pentref ac mae'r ymgyngoriad wedi gweld newid hynod o gadarnhaol mewn agweddau tuag at blant a phobl ifanc. Bu'r sianeli am integreiddiad cymdeithasol yn hanesyddol dlawd iawn, ond mae'n awr wir ymdeimlad gan lawer o bobl leol a sefydliadau (megis yr ysgol a'r cyngor cymuned) fod yn rhaid i bethau newid er mwyn i'r gymuned oroesi – gobeithiwn y bydd y prosiect yn parhau i chwarae rôl yn hyn.

Byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod am unrhyw brosiectau eraill tebyg i'n prosiect ni i rannu gwybodaeth a chynnig cefnogaeth.

Yn gywir iawn
Alison Walker

Prosiect Meysydd Chwarae Cymuned Hawau oedd y prosiect gwirfoddol cyntaf yn Sir Faesyfed i dderbyn Cyllid gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer hamdden anffurfiol.

Medrir cysylltu ag Alison ar 01597 824301.



A yw'r Iseldirwyr yn Caru eu Plant r

Mae cyfarfodydd yr hydref hwn o Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfle go iawn i newid ein dynesiad at y ffordd y darperir ar gyfer plant yng Nghymru – o ddyuniad priffyrdd i gynlluniau tai newydd. Mae gan rai gwledydd yn Ewrop hefyd ddynesiad sensitif-i-blant a chynhwysol-o-blant braf o gadarnhaol a rhagweithiol pan ddaw i gynllunio a gwneud polisi – yma mae Perry Else yn amlinellu ei brofiad o'r ffordd y caiff plant (a'u chwarae) eu gwerthfawrogi fel rhan o'r gymuned yn yr Iseldiroedd.

Bu llawer o ddatblygiadau polisi yn anelu i wella cyfleoedd plant ym Mhrydain yn ddiweddar, eto mae profiadau plant a'u cyfleoedd i chwarae yn parhau'n wael. Mae gennym lawer o esgusodion dros hyn ym Mhrydain, ond nid esgusodion da sydd ganddynt yn Ewrop ond cyfleoedd chwarae da!

Profiadau o'r Iseldiroedd

Ymwelais â'r Iseldiroedd am y tro cyntaf ddwy flynedd yn ôl a chefais fy nharo gan yr ansawdd a defnydd a wnaed o'r amgylchedd awyr agored. Rwyf wedi dychwelyd yno ac wedi penderfynu fod dynesiad yr Iseldiroedd at yr amgylchedd yn hyrwyddo cyfleoedd chwarae i blant yn sylweddol.

Mae pawb yn gwybod fod yr Iseldiroedd yn wastad a gyda llawer o ddyfrffyrdd. Yr hyn na wyddwn nes i mi ymweld oedd pa mor gyffredin oedd seiclo a sut y mae'n effeithio ar fywyd bob dydd yno. Yn yr Iseldiroedd (megis mewn rhannau eraill o Ewrop), mae ceir yn gorfod ildio i feiciau a cherddwyr mewn llawer o amgylcheddau traffig canol dinas. Mewn damwain ffordd rhwng beic a char, tybir yn otomatig mai'r car sydd ar fai. Mae'r agwedd hon yn creu dynesiad cadarnhaol at seiclo sy'n cyfrannu at y ffaith fod beic gan fwy na 85% o'r boblogaeth yn Amsterdam.

Ond nid dim ond gyda seiclo y mae'r gyfraith yn helpu, mae dyluniad ffyrdd hefyd yn help mawr. Adeilid llwybrau beic wrth ymyl llawer o ffyrdd tref. Mae ganddynt eu goleuadau traffig a chroesiadau eu hunain ar gyfer priffyrdd. Ni all ceir barcio yn y ffordd seiclo (fel y medrant wneud yn aml yn y DG). Fel canlyniad, mae'n eithaf cyffredin gweld plant yn seiclo o amgylch y dref gyda rhieni, cyfeillion neu ar eu pennau eu hunain. Bydd rhieni yn aml yn cario un neu ddau o blant gyda hwy ar y beic, ac nid oes neb yn gwisgo helmed 'ddiogelwch', gallmair yw eu hyder yn y system. Mae'r gallu hwn i deithio o amgylch yn annibynnol yn rhoi rhyddid mawr i blant sy'n hyrwyddo eu cyfleoedd chwarae yn sylweddol.

Y penderfyniad polisi allweddol arall sy'n

effeithio ar fywydau plant yw fod pob plentyn wedi dysgu nofio erbyn eu bod yn saith mlwydd oed. Mae'r Iseldiroedd yn wlad sydd â llawer o ddyfrffyrdd yn torri ar ei thraws felly mae mynediad i ddŵr yn ddigwyddiad bob dydd i bob plentyn. Fodd bynnag, yn hytrach na dewis ffensio pob llwybr dŵr neu wahardd plant ger dŵr, mae'r Iseldirwyr wedi cymryd y penderfyniad polisi i helpu sicrhau diogelwch eu plant – ac felly eu rhyddid.



Mae'r ddau gam gweithredu polisi hyn yn galluogi llawer o blant i wneud eu hwyl eu hunain ar draws y dref. Maent yn seiclo o amgylch, mynd i bysgota, mynd i nofio (weithiau yn y ddyfrffordd) ac yn gwneud pethau chwareus eraill. Wrthynt eu hunain, mae'r profiadau hyn yn rhoi mantais i blant yr Iseldiroedd o'u cymharu â'u cyfoedion ym Mhrydain, fodd bynnag mae'r Iseldirwyr yn mynd â'u dynesiad at chwarae hyd yn oed ymhellach.

Astudiaeth achos – Goes

Ymwelais â thref Goes yn Zeeland. Mae Goes yn dref gyda phoblogaeth o 35,000, tebyg i Cheltenham yn Lloegr neu Stirling yn yr Alban. Bedwar can medr o ganol y dref mae cymhlyg chwaraeon mawr, o fewn deg munud o daith beic i bobl yn y dref. Mae gan y ganolfan chwaraeon amrywiaeth o neuaddau a chwaraeon a gweithgareddau ond yr hyn sy'n ei wneud yn wahanol i ganolfannau chwaraeon tebyg ym Mhrydain yw ei nodweddion dŵr. Mae gan y ganolfan chwe gofod dŵr gwahanol i ddarparu ar gyfer gwahanol oeddrannau a gallu'r nofwyr. Mae caffe yn gwerthu snaciau, diodydd a hufen iâ yng nghornel yr ardal ddŵr. Mae'r caffe yn helpu plant a'u teuluoedd i aros yn y pwll am fwy na thair awr (dim bandiau rwber neu dagiau i'ch cael allan yma). Caiff hyn ei helpu gan nifer y cadeiriau a osodwyd o amgylch ymyl pob gofod dŵr i greu grwpiau teulu a chyfeillgarwch sy'n aml yn gymdeithasu drwy'r dydd.

Ond yr hyn sy'n wirioneddol yn gwneud Goes yn wahanol (a mae yn arbennig er

nad yn unigryw yn yr Iseldiroedd) yw'r ardal natur yn union gyferbyn â'r ganolfan chwaraeon. Cafodd yr ardal ei chreu gydag amrywiaeth o nodweddion tirwedd sy'n cyfuno i greu amgylchedd chwarae ardderchog gyd llawer o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ar gyfer plant.

Mae'r caffe/bwyty hanfodol yn gwerthu cwrw. Rwy'n dweud hanfodol, gan fod y caffes hyn i gael ledled yr Iseldiroedd yn gwerthu snaciau poeth, sy'n annog teuluoedd i fynd allan ac aros allan. Yn ymyl y caffe hwn mae ardal golff fechan, fferm anifeiliaid, canolfan chreffft leol a chanolfan treftadaeth. Yna mae'r ardal chwarae 'swyddogol' yn llawn o bob math o offer. Ond y darn gorau yw'r ddyfrffordd ychydig ymhellach lle caiff plant eu hannog i chwarae.

Wedi'u blannu'n uniongyrchol yng nghanol y dŵr mae polyn mawr gyda chadwyn a rhaff yn gysylltiedig. Ar bob ochr mae llwyfan glanio ac ychydig ymhellach mae cyfres o gerrig camu. Mae plant yn cymryd eu tro i groesi'r ffordd ar siglen, ac yna'n rhedeg ar draws y cerrig i gael tro arall arni. Nid oes neb yn eu harolygu, nid oes neb yn dweud wrthynt i rannu'r rhaff neu i fod yn ofalus yn agos at y dŵr (gall yr holl blant nofio!). Mae'n enghraifft wych o'r cyfleoedd chwarae y mae'r Iseldirwyr yn eu darparu ar gyfer eu plant.

Ychydig ymhellach mae fferi rafftau ar draws y dŵr y mae'r plant yn ei defnyddio fel y mynnant ac yn ddi-ofn. Mae'r holl ardal wedi ei ffinio gan goedydd a bryniau bach ac ymddengys ei bod yng nghanol cefn gwlad, er ei bod yn agos at ardal ddiwydiannol a dim ond 800m o ganol y dref.



Nid yw'r chwarae a anogir gan yr Iseldirwyr wedi ei gyfyngu i ardaloedd chwarae ffurfiol. Roeddent hefyd yn ddatblygydd sylweddol ar 'woonerf', yr hyn a alwn ni yn barthau cartref; strydoedd a gynlluniwyd yn benodol i annog chwarae a gwrthannog cerbydau rhag symud yn gyflym. Mae gweddoluniau ffordd arbennig, celfi stryd a chyfraith sy'n 'beio' gyrwyr yn golygu y gall plant a rhieni ddefnyddio'r strydoedd yn ddibryder.

Mae'r Iseldirwyr hefyd yn darparu mwy o ofodau chwarae 'ffurfiol' ar gyfer plant; llawer ohonynt wedi eu gosod yng

Hwy yn Fwy nag y Carwn ni ein Plant Ni?

nghanol y stad, lle'r oedd llif trafniadaeth arafaf. Roedd gan yr ardaloedd chwarae cymdogaeth bach hyn, a oedd fel arfer â sylfaen tywod neu lenwi'n rhydd (yn hytrach na 'wyneb diogelwch) yn cael eu defnyddio'n aml gan blant heb arolygaeth. Roedd gan un safle a welais dden dros dro yr oedd plant wedi ei hychwanegu at yr offer. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw blant yno; roeddent wedi gadael eu teganau ac wedi mynd gartref am ginio – yn hyderus na fyddai neb yn ymyrryd ar eu gofod.

achosion gwaethaf o ddarpariaeth bwrdeisiol lle ymddengys fod y gofod a ddarperir ar gyfer plant wedi ei gynllunio i'w hatal rhag chwarae yn hytrach na'i annog. Mae llawer o'r gofodau chwarae hyn o amgylch, yn dal mewn bodolaeth ar ôl blynyddoedd lawer o ymwybyddiaeth gynyddol am werth chwarae gofodau o'r fath. Mae'n ymddengys fod gennym pob cymdeithas ymlyniad at yr hen 'ardaloedd hamdden' ac yn aml yn brwydro i'w cadw yn eu hardal yn hir ar ôl i'r arolygwyr diogelwch symud yr holl offer 'hwyl'



Wrth gwrs nid oedd popeth a glywais ac y clywais amdano yn rhydd o helynt. Roedd gweithwyr chwarae y siaradais â hwy yn bryderus am 'niwsans ieuencid'. Soniodd gweithwyr eraill am broblemau gyda phobl ifanc a chlywais am achosion tebyg yn ddiweddarach mewn cynhadledd Ewropeaidd. Dywedwyd hefyd' fod seiclo yn gostwng mewn rhai rhannau o'r Iseldiroedd gyda rhieni sy'n gweithio yn dewis defnyddio eu ceir yn hytrach na'u beiciau. Roedd hyn yn cyfrannu at wahaniaeth tref/dinas oedd yn creu cyfleoedd chwarae gwaith i blant y ddinas.

I gynhoi, mae amgylchedd yr Iseldiroedd yn cynnig llawer o ofodau y gall plant eu defnyddio fel y mynnant i greu eu ffraniau chwarae eu hunain, chwarae ar ben eu hunain², gydag eraill neu gyda'r amgylchedd.

Gofodau chwarae ym Mhrydain

Wrth gymharu'r profiadau hyn gyda Phrydain, mae'n demtasiwn edrych ar yr

mewn ymgais i wneud meysydd chwarae yn 'ddiogel'. Dywedwyd yn y gynhadledd 'Designs on Play' yn Portsmouth y gwariwyd dros £200m ar wynebaw meysydd chwarae diogelwch yn y Deyrnas Gyfunol dros y deng mlynedd nesaf, ond na chafodd hyn unrhyw effaith amlwg ar nifer y damweiniau meysydd chwarae.³

Mewn un dinas ogleddol y gwn amdani, trefnodd y Cyngor i safleoedd ffurfiol y ddinas i gael eu hasesu'n annibynnol ar gyfer eu gwerth chwarae a diogelwch. Graddiwyd y safleoedd hyn ar p'un ai oes ganddynt wyneb diogelwch, yn ateb gwahanol fathau chwarae, a oes ganddynt ardal gemau ar wahân, ardal rhydd o ffensiau/cŷn, arwyddion a p'un ai a oes eraill yn edrych drostynt. Roedd y meysydd chwarae yn aml yn cael sgôr o lai na 50%. Drwyddi draw yr argraff yw tloidi darpariaeth o gymharu â'r hyn a ddisgrifiais yn yr Iseldiroedd.

Yn 1971, caniatwyd i 80% o blant saith ac wyth oed deithio i'r ysgol ar ben eu hun neu gyda phlant eraill.⁴ **parhad, td. 11 >**

Crynodeb

Felly fel casgliad a wyf yn dadlau ein bod yn copio ffordd yr Iseldirwyr o wneud pethau? Na, ond rwy'n teimlo fod angen i ni dewis i ffordd yr ydym ni ym Mhrydain yn dewis byw. Rwy'n sicr fod y ffordd y meddyliwn am blant yn effeithio'r ffordd yr ydym yn eu trin. Os meddyliwn amdanynt fel gwrthrychau bregus y mae'n rhaid i ni ofalu amdanynt, yn darparu ffordd 'diogel' i chwarae, os gwelwn hwy fel 'pobl fach'⁶ gydag anghenion a hawliau unigol byddwn yn darparu yn wahanol.

Mae angen i ni herio ein derbyniad cyfredol o gyflwr ein dinasoedd, trefi a phentrefi ac ymrwymo i newid i wneud pethau'n well i blant. Mae angen i ni ddigon deyr i freuddwydio am well dyfodol i blant (ac i ni'n hunain).

Fel cymdeithas rydym wedi gwneud ymrwymiad i addysg feithrin ar gyfer pob plentyn tair oed (ac yng Nghymru rydym yn mynd ymhellach byth). Mae angen i ni feddwl am y rhyddid real y mae'n plant angen i ddatblygu eu meddyliau a'u cyrff, o fewn ac wedi ymrwymo gyda'r amgylchedd a'u diwylliant. Dylem ymrwymo pobl ifanc wrth rannu eu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, fel y medrwn gyda'n gilydd wneud lle gwell i bawb ohonom.

Perry Else

Ludemos

Cedwir pob hawl. Ni fedrir copio, atgynhyrchu neu drosglwyddo unrhyw ran o'r erthygl hon drwy unrhyw ddull heb ganiatâd yr awdur.

Cyfeiriadau

- ¹ J Zumervrucht, *Cycling on one's own*, papur ar gyfer Trafodion Cyngres 'The Child in the City', Bruges 2002.
- ² Gordon Shurrock a Perry Else, 1998. *The playground as therapeutic space: playwork as healing* (gelwir 'The Colorado Paper' a gyhoeddwyd yn Play in a Changing Society: Research, Design, Application, IPA/UPSA, Little Rock, Unol Daleithiau.
- ³ Robin Sutcliffe, *Managing Risk for Children's Benefit*, papur ar gyfer 'Designs on Play' Playlink/Cyngor Dinas Portsmouth 2002
- ⁴ Dyfynnwyd gan Tiffany Jenkins, 7 Awst 1999 *Are we over-protective towards our children?* The Guardian
- ⁵ Canolfan Ymchwil Innocenti, Unicef, Yr Eidal <http://www.childfriendlycities.org>
- ⁶ Gisela Eckert, 2002, *Changing Childhoods*, papur ar gyfer Trafodion Cyngres 'The Child in the City', Bruges, 2002.

Agor ein Drysau i Bob Plentyn

Mae James Mulenga yn rhan o'r Tim Datblygu Chwarae Lleiafrifoedd Ethnig gwobrwyol yng Ngwasanaethau Chwarae Caerdydd. Rhoddodd e'i gydweithiwr Parveen Ahmad yr araith gyweirnod yng nghynhadledd JNCTP ym mis Tachwedd, a maent wedi cyflwyno gweithdai yn ein cynhadledd Ysbyrd ac yn y gynhadledd Chwarae Addysg yn Belfast.

A yw dynesiadau gwrth-dueddiad, gweithredu cadarnhaol a gwrth-wahaniaethol mewn gwaith chwarae yn ddelfrydgar ac afrealistig pan ddaw i'r ffordd y mae gweithwyr chwarae a gweithwyr datblygu chwarae yn delio gyda realaeth lethol darparu chwarae mewn cymdeithas amrywiol? Gall lefelau o ddifreintiad chwaraeon gael eu gwaethygu os gwnawn ddynesiadau amhriodol o fewn cymunedau, felly mae'n bwysig bod yn sensitif wrth geisio goresgyn y rhwystrau a all atal plant rhag cyrchu darpariaeth chwarae.

Mae'r materion cyntaf sydd angen i ni eu hystyried yn amlwg hyd yn oed cyn i'r plentyn gael ei drochi yn y gosodiad a'r broses chwarae. Mae hwn yn fan cychwyn pwysig gan y byddai llawer yn dadlau nad yw trochiad yn y broses chwarae yn gweld unrhyw hollt p'un ai drwy ddiwylliant, hil neu grefydd. Fodd bynnag, os yw diwylliant plentyn yn sefyll yn y ffordd wrth iddynt hyd yn oed groesi'r trothwy, caiff y broses chwarae ei rhwystru o'r cychwyn.

Mewn llawer o ddiwylliannau ni chaiff chwarae ei werthfawrogi mewn cymhariaeth ag addysg ffurfiol, astudiaethau diwylliannol/crefyddol a gweithgareddau masnachol strwythuredig dan arweiniad oedolion. Gall rhai cymunedau atal eu plant rhag mynychu oherwydd nad yw'r ddarpariaeth yn adlewyrchu eu diwylliant eu hunain – gallant fod angen gwahanu bechgyn a merched, dathlu gwyliau cymunedol a dyddiau sanctaidd, a chyflogi staff o'u cymuned eu hunain sy'n siarad eu mamiaith. Gall hefyd fod ofn hiliaeth.

Gall rhwystrau eraill gynnwys canfyddiad negyddol o ddarpariaeth chwarae o fewn y gymuned, yr ymdeimlad nad yw'n rhan o'u cymuned; lleoliad daearyddol chwithig yr adnodd; diffyg cyfathrebu neu ddiffyg perthynas rhwng staff chwarae a'r gymuned. Gall hyd yn oed ddod i lawr i'r ffaith fod amserau agor y ddarpariaeth chwarae yn gwrthdaro gydag addysg ddiwylliannol neu grefyddol. Gall yr holl ffactorau hyn arwain at i rieni orchymyn eu plant i beidio mynychu.

Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o ddarpariaeth chwarae gan ddefnyddio dynesiad sydd â mwy o ffocws ar y gymuned – mae creu proffil cyd-destun gwaith yn ddyfais ar gyfer archwilio'r ddarpariaeth leol ar gyfer plant/ieuenctid yn ogystal â grwpiau cymunedol yn yr ardal. Mae hyn yn rhoi manau cyswllt, tra bod dadansoddiad cymharol o ddata Cyfrifiad lleol hefyd yn effeithlon wrth gydnabod tangynrychiolaeth plant o wahanol gymunedau diwylliannol yn ein canolfannau chwarae.

Mae ymwybyddiaeth o fodolaeth eich darpariaeth hefyd yn ffactor bwysig wrth ddenu diddordeb gan gymuned, a dyma lle daw cyhoeddusrwydd a hyrwyddo effeithlon i mewn. Mae Gwasanaethau Chwarae Caerdydd wedi cynhyrchu gwbyodaeth amlieithog yn hyrwyddo nid yn unig ddarpariaeth bwrsol ond hefyd gynlluniau chwarae gwyliau. Mae dulliau eraill o hyrwyddo



Paentio wyneb mewn Cynllun Chwarae yng Nghaerdydd

hefyd yn cynnwys Dyddiau Profi Chwarae – digwyddiadau targedig i deuluoedd i ymweld â darpariaeth chwarae nad ydynt eisoes yn ei gyrchu, lle caiff cyfleoedd chwarae eu hwyluso ar gyfer plant ac oedolion.

Rydym hefyd yn cynnal hyfforddiant chwarae lefel gyflwyno i aelodau ein cymuned. Dechreuodd ein cwrs hyfforddiant cyntaf gyda ffocws cymunedol ym mis Mehefin yng Nghanolfan Chwarae Glanrafon a roedd mwy o geisiadau nag o leuedd ar gael. Mae'r hyfforddiant targedig hwn yn annog perthynas gydag unigolion yn y gymuned a gobeithiwn y bydd yn cynorthwyo'r cynnydd mewn cyfranogiad. Mae hefyd yn annog aelodau o'r cymunedau lleiafrif ethnig i gymryd rhan mewn gwaith chwarae gwirfoddol a thaledig. Gall y canlyniad hwn fod ag effeithiau cadarnhaol i lawer o blant, yn nhermau darparu modelau rôl cadarnhaol ac annog hunaniaeth gadarnhaol. Mae ein gwaith yn datblygu ar hyn o bryd gyda phlant o gymunedau ffoaduriaid a cheiswyr nodded, cymunedau Sipsiwn Teithwyr, cymunedau Moslemaidd a'r cymunedau Yemaidd a Somalaidd.

Mae hyn yn gymharol syml os ydym yn gweithio mewn poblogaethau ethnig amrywiol, ond i'r rhai sy'n gweithio mewn cymunedau llai amrywiol, gall y dynesiad ymddangos yn bitw a diangen. Mae gan bob plentyn hawl i chwarae, a chredaf y medrwn gymryd camau cadarnhaol i ateb anghenion hyd yn oed y cymunedau lleiaf nad ydynt yn cyrchu ein darpariaeth chwarae ar hyn o bryd. Os ydym eisieu darparu gwasanaeth gwirioneddol gynhwysol, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r her.

I gael gwbyodaeth bellach ar Ddatblygu Chwarae Lleiafrif Ethnig yng Nghaerdydd, cysyllter â James Mulenga ar 029 2087 3978.



Dringo mewn Diwrnod Profi Chwarae yn y Sblot

CYLLIDCYLLIDCYLLIDCYLLIDCYLLIDCYLLIDCYLLID

Dyma restr fer o wefannau o elusennau a sefydliadau sy'n gwahodd cynigion am gyllid:

Allen Lane www.allenlane.demon.co.uk

Grantiau i brosiectau newydd, offer ac ati ar gyfer enghreifftiau o ddatblygu cymunedol, ffoaduriaid a cheiswyr nodded ac eraill, yn bennaf ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio ar lefel genedlaethol neu ranbarthol.

Carnegie UK Trust www.carnegietrust.org.uk

Yn cefnogi, ymysg pethau eraill, ddatblygiad cymunedol pentrefol a gwledig a defnydd ehangach neuaddau pentref.

Children in Need www.bbc.co.uk/cin

Grantiau blwyddyn ar gyfer prosiectau yn ymwneud â phlant dan anfantais a phobl ifanc dan 18 oed i gynnwys prosiectau cyfalaf, prosiectau tymhorol (yn cynnwys cynlluniau chwarae), gwyliau a gwibdeithiau ac offer. Mae ffurflenni cais ar gael ar gyfer 2003/04 o fis Medi a'r amserlenni yw 30 Tachwedd 2003 a 30 Mawrth 2004.

Comic Relief www.comicrelief.org.uk

Yn cynnig grantiau ar gyfer costau craidd i elusennau cofrestredig (yn bennaf) yn ymwneud ag (ymysg eraill) gymunedau gwledig yn gweithio dros newid, ffoaduriaid a cheiswyr nodded, a chefnogi pobl ifanc.

Y Gronfa Gymunedol www.community-fund.org.uk

Cyllidydd Loteri sydd yn y gorfennol wedi darparu grantiau i ganolfan adnoddau chwarae Chwarae lawn yn Abertawe a Phrosiect Cymunedol Nantyllo ar gyfer pobl ifanc.

Tudor Trust www.tudortrust.org.uk

Darparu grantiau ar gyfer grwpiau lleol yn gweithio o fewn eu cymuned mewn ardaloedd wedi eu hymylu neu ardaloedd yn dioddef o ddiethrwyth cymdeithasol, i sefydlu adnoddau cymunedol neu ddarparu ardaloedd gwyrdd yn darparu ffocws cymunedol.

Ar y traeth ddiwedd mis Hydref - Patrick, Morgan a Bob yn Rest Bay



<parhad o dudalen 9

Erbyn 1990, roedd i lawr i 10%. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ni wnaeth risgiau gynyddu ond fe gynyddodd ofn. Ym Mhrydain yn awr, mae'n eithaf cyffredin cael tagfeydd traffig mewn strydoedd o amgylch ysgolion cynradd wrth i geir rhieni pryderus fynd â'u plant i'r ysgol.

Clywais yn ddiweddar am bobl ifanc o ran 'cefnog' dinas yn dweud wrth eu rhieni eu bod yn cysgu yn nhai ei gilydd, ond yna'n dewis cysgu'n ddigysgod mewn parciau lleol. Fe'm trawodd fod hyn yn ateb dymuniad i ymrwymo'n rhydd gyda'r amgylchedd mewn ffordd uniongyrchol a greddfod a all fod yn ymateb i'r chwarae dirywiedig yr oeddent wedi ei profi.

Plentyn yn y Ddinas – Cynhadledd

Eto mae lle i fod yn optimistaidd. Galwodd cynhadledd a gynhaliwyd yn Bruges, Gwlad Belg 2002 am hawl plant i gael eu lle yn ninasoedd heddiw. Siaradodd y gynhadledd am yr angen cynyddol i'r rhai sydd yn gyfrifol am ddatblygu gofodau chwarae plant i weithio'n fwy agos gyda chymdeithasegwyr a chynllunwyr tirwedd. Nid oedd mewn unrhyw ffordd un llais yn siarad dros bawb yn y gynhadledd ond roedd dymuniad dilys i archwilio ymarfer cyfredol a symud tuag at wella profiad y plentyn yn y ddinas.

Cysylltiadau – fframweithiau ar gyfer meddwl

- Gwahanol bersbectifau ar blentyndod
- Angen i gynnwys pawb
- Dynesiadau datblygu cymunedol
- Dynesiadau holistig

Ymarfer – gwneud gwahaniaeth

- Cyfranogiad a rhwydweithio
- Cynllunio'n effeithlon
- Ymchwilio i fanteision
- Lledaenu canfyddiadau i bob cynulleidfa

Dywedwyd yn y gynhadledd fod sut y teimlwch am broblem yn arwain y datrysiadau y byddech yn eu rhoi ar waith i wneud i bethau ddigwydd. Siaradodd nifer o bobl am yr angen i 'freuddwydio ychydig' i greu fersiwn o'r dyfodol y byddem yn gweithio tuag ati ar gyfer ein holl blant.

Sefydlwyd rhwydwaith Ewropeaidd o gefnogwyr dinasoedd cyfeillgar i blant yn y gynhadledd. Caiff ei bresenoldeb ar y rhyngwyd ei noddi gan yr Ysgrifenyddiaeth Ryngwladol dros Ddinasoedd Cyfeillgar i Blant,⁵ sy'n diffinio dinas cyfeillgar i'r blant fel sy'n dilyn.

Mae Dinas Cyfeillgar i Blant yn gwarantu hawl pob dinesydd ifanc i:

- Ddylanwadu ar benderfyniadau am eu dinas
- Mynegi eu barn ar y ddinas y maent eisiau
- Cymryd rhan mewn bywyd teuluol, cymunedol a chymdeithasol
- Derbyn gwasanaethau sylfaenol megis gofal iechyd, addysg a chysgod
- Yfed dŵr diogel a chael mynediad i gyfleusterau sanidol addas
- Cael eu hamddiffyn rhag ecsbloetiad, traia a chamdriniaeth
- Cerdded yn ddiogel yn y strydoedd ar ben eu hunain
- Cyfarfod â ffrindiau a chwarae
- Cael gofodau agored ar gyfer planhigion ac anifeiliaid
- Byw mewn amgylchedd anllygredig
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol priodol
- Bod yn ddinesydd cyfartal o'u dinas gyda mynediad i bob gwasanaeth, heb ystyriaeth i darddiad ethnig, crefydd, incwm, hil neu anabledd.

Mae'r rhain yn ddyheadau gwych sydd angen eu rhoi ar waith os ydym i roi i blant y profiadau y maent eu hangen a'u haeddu.

DIGWYDDIADAU

Mae'r digwyddiadau dilynol ar y gweill gan Chwarae Cymru ar gyfer 2004, y dyddiadau a lleoliadau i gael eu cadarnhau.

Mawrth

Cyflwyniad Arall i Feysydd Chwarae Antur

Seminar ar gyfer newydd-ddyfodiaid sy'n ymwneud â datblygu meysydd chwarae antur yng Nghymru a phobl a fu ar y seminar gyflwyno yn 2003 sy'n dymuno datblygu'r cysyniad ymhellach.

11/12 Mai

Cynhadledd Ysbryd 2004, Caerdydd

Cynhadledd Brydeinig yn ymchwilio gwaith chwarae ac ethos meysydd chwarae antur.

Mehafin

Seminar Ardal Chwarae Olwynion, De Cymru

Hydref

Digwyddiad yn dilyn **Ludostrategin** a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer staff datblygu chwarae yn gweithio yng Nghymru.

Rydym hefyd yn cynllunio hyfforddiant archwilio meysydd chwarae gwerth da yn gysylltiedig gydag arholiadau RPII.

SWYDDI AR Y WE

Mae Chwarae Cymru yn hysbysebu unrhyw swydd chwarae yng Nghymru ar ei wefan yn ddi-dâl.

Os hoffech hysbysebu swydd berthnasol yn ddi-dâl, anfonwch e-bost atom gan wneud yn sicr eich bod yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol, eich manylion cyswllt a dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Caiff hysbysebion eu doddi y dydd Llun ar ôl eu derbyn a'u symud yno y dydd Llun ar ôl y dyddiad cau a nodir.

Cysylltwch â mail@playwales.org.uk i ddodi hysbyseb neu ymweld â www.playwales.org.uk/jobs i edrych am swyddi gwag.

CANOLFANNAU ADNODDAU CHWARAE

YMDDIHEURIADAU I'R PROSIECT ARTS AND SCRAPS YN ABERHONDDU SY'N DERBYN CYLLID O'R GRONFA HER CYNALIADWYEDD AC AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG.

OS YDYCH ANGEN CYSYLLTU Â'R PROSIECT FFONIWCH MICHAEL EISELE AR 07977 447543

Ffarwel i Claire

Mae Claire, ein gweithwraig swyddfa hyfryd o **Mlwerddon**, yn gadael Chwarae Cymru ym mis **Rhagfyr** i deithio'r byd.

Ymyg y gwledydd ar ei rhestr mae Thailand, Cambodia, Fietnam, Awstralia, Seland Newydd, yr Ariannin, Periw, Brasil, America, Canada ac wedyn gartref (efallai!).

Mae ei Mam wedi rhoi dwy set o gleiniau rosari iddi – rhag ofn – a rydym yn ein hanfon gyda llawer o gariad i fod yn llysgennad teithiol dros chwarae yng Nghymru.



A oes Cloch ar y Beic?

Caiff clychau eu gwneud yn orfodol ar bob beic newydd mewn ymgyrch i iwella diogelwch cerddwyr.

Mae heddlu hefyd i gael y pwerau i atafaelu beiciau os ydynt yn cael eu gyrru ar y palmant. Daw'r rheoliadau newydd i rym ym mis Mai 2004.

I gael gwybodeath bellach cysyllter â'r Adran Drafnidiaeth ar 020 7944 8300.

E-fwletin Playful Learning

Mae Sefydliad Dysgu LEGO wedi lansio cylchlythyr electronig Playful Learning. Mae'n rhoi crynodeb rheolaidd o ymchwil a thrafodaeth ryngwladol ar chwarae a dysgu plant. Yn seiliedig yn Nenmarc, mae Sefydliad Dysgu LEGO yn sefydliad rhwydwaith sy'n anelu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd chwarae, dysgu a chreadigrwydd fel rhan o dwf a datblygiad plant. Os hoffech danysgrifio i'r cylchlythyr e-bostiwrch playfullearning@europe.lego.com

Medrwrch ddarllen y rhifyn presennol a rhifynnau blaenorol yn y wefan ddilynol
www.legolearning.net